CYNGOR

COFNODION Y CYFARFOD AML-LEOLIAD A GYNHALIWYD YN SIAMBR TŶ PENALLTA A THRWY MICROSOFT TEAMS DDYDD MAWRTH, 4 HYDREF 2022 AM 5.00PM

YN BRESENNOL:

Y Cynghorydd E.M. Aldworth – Maer

Y Cynghorwyr:
C. Andrews, C. Bishop, A. Broughton-Pettit, M. Chacon-Dawson, R. Chapman, P. Cook, S. Cook, D. Cushing, C. Cuss, T.D. Davies MBE, G. Ead, C. Elsbury, G. Enright, M. Evans, A. Farina-Childs, E. Forehead, J. E. Fussell, A. Gair, N. George, C. Gordon, D. Harse, T. Heron, A. Hussey, D. Ingram-Jones, M. James, L. Jeremiah, J. Jones, S. Kent, P. Leonard, C. Mann, A. McConnell, B. Miles, C. Morgan, S. Morgan, T. Parry, L. Phipps, M. Powell, D.W.R. Preece, D. Price, H. Pritchard, J. Pritchard, J. Reed, J. Roberts, J. Sadler, J. Simmonds, E. Stenner, J. Taylor, C. Thomas, L. Whittle, S. Williams, W. Williams, J. Winslade, K. Woodland, C. Wright.

Ynghyd â:-

C. Harrhy (Prif Weithredwr), R. Tranter (Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol a Swyddog Monitro), M.S. Williams (Cyfarwyddwr Corfforaethol yr Economi a'r Amgylchedd), L. Lane (Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd a Dirprwy Swyddog Monitro), R. Kyte (Pennaeth Adfywio a Chynllunio), D. Lucas (Arweinydd Tîm, Cynllunio Strategol), S. Harris (Pennaeth Gwasanaethau Ariannol a Swyddog Adran 151), R. Thomas (Rheolwr Gwasanaethau Cynllunio), T. McMahon (Rheolwr Adfywio Cymunedol), S. Issacs (Rheolwr Rhenti), K. Cole (Prif Swyddog Addysg), S. Richards (Pennaeth Addysg, Cynllunio a Strategaeth), G. Jenkins (Dirprwy Gyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol, Gwasanaethau Plant), S. Pugh (Pennaeth Cyfathrebu), E. Sullivan (Uwch Swyddog Gwasanaethau Pwyllgor)

Hefyd yn Bresennol: -

A. Boulter, C. Jones, A. Goss a
B. J. Hallett a P. Woods (Ysgol Bro Sannan ac Ysgol Gymraeg Gilfach Bargoed)

TREFNIADAU RECORDIO, FFILMIO A PHLEIDLEISIO

Atgoffodd y Prif Weithredwr bawb a oedd yn bresennol fod y cyfarfod yn cael ei ffrydio'n fyw, ac y byddai recordiad ar gael yn dilyn y cyfarfod ar wefan y Cyngor – Cliciwch yma i'w wylio. Dywedodd y byddai penderfyniadau'n cael eu gwneud drwy Microsoft Forms.

1. YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Cafwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan y Cynghorwyr M. Adams, A. Angel, N. Dix, K. Etheridge, C. Forehead, G. Johnston, A. Leonard, B. Owen, J. Pritchard, R. Saralis, A. Whitcombe.

2. CYHOEDDIADAU'R MAER

Cyfeiriodd y Maer at yr ymrwymiad a'r digwyddiadau y buodd iddynt ers cyfarfod diwethaf y Cyngor a chyfeiriodd yn benodol at ei gwahoddiad i wasanaeth coffa ar gyfer y Frenhines Elizabeth II a chyfarfod â'r Brenin Charles III.

3. DERBYN DEISEBAU O DAN REOL GWEITHDREFN 28(3)

Nid oedd deisebau.

4. CYFLWYNO GWOBRAU

Gwirfoddolwr y Flwyddyn 2022 Young Enterprise

Mynegodd yr Aelod Cabinet dros Addysg a Chymunedau ei phleser o gael cyhoeddi bod Antony Bolter wedi'i enwi yn Wirfoddolwr y Flwyddyn 2022 Young Enterprise.

Cynghorwyd Aelodau mai Young Enterprise oedd cangen elusennol Junior Achievement Worldwide yn y DU ac y byddai'n dathlu ei ben-blwydd yn 60 oed yn 2023. Bwriad y Rhaglenni Cwmni a Thîm yw rhoi cyfle i bobl ifanc ddysgu ac ymarfer sgiliau sy'n eu paratoi nhw ar gyfer byd gwaith.

Nododd y Cyngor fod Antony wedi dechrau ymwneud ag Young Enterprise yn 2003 fel Cynghorydd Busnes i fyfyrwyr yn Ysgol Gyfun Heolddu. Ers hynny, mae wedi dal nifer o rolau gwirfoddol, gan gynnwys Cynghorydd Busnes i Trinity Fields a Choleg Gwent, Athro Cyswllt yn Fast Forward, Aelod Bwrdd Caerffili, Blaenau Gwent a Thorfaen, Aelod Bwrdd Young Enterprise yng Nghymru ac, yn fwy diweddar, Arweinydd y Tîm Gwirfoddolwyr yn ne a chanolbarth Cymru.

Oherwydd bod dros 7500 o Wirfoddolwyr Young Enterprise ar draws y DU, roedd yr Aelod Cabinet yn siŵr y byddai'r Cyngor yn cytuno bod y dyfarniad hwn yn adlewyrchu'r gwaith caled a'r ymroddiad yr oedd Antony wedi'u dangos.

Estynnodd y Maer groeso i Antony Bolter i'r Cyngor a gofynnodd i'r Aelodau ymuno â hi i'w longyfarch ar y gamp arbennig hon.

Gwobrau Cyflawniad Cymdeithas Sector Gwirfoddol Gwent

Mynegodd yr Aelod Cabinet dros Addysg a Chymunedau ei balchder o gael cyflwyno Carl Jones, Technegydd Meddygol Brys, a oedd wedi'i enwebu am wobr yn noson Gwobrau Cyflawniad Cymdeithas Sector Gwirfoddol Gwent, a gynhelir yn nes ymlaen yn y mis.

Rhoddwyd gwybod i Aelodau fod Carl, pan nad oedd ar ddyletswydd, yn digwydd mynd heibio i stryd ym Margoed lle'r oedd tŷ ar dân. Aeth Carl ati i seinio rhybudd ac achubodd 3 theulu fel y gallai'r gwasanaethau brys achub y gŵr yn y pedwerydd eiddo.

Estynnodd y Maer groeso i Carl Jones i'r Cyngor a gofynnodd i Aelodau ymuno â hi i gydnabod y dewrder anhygoel hwn a helpodd achub bywydau ac atal difrod pellach i eiddo cyfagos.

Gwobr Profiad Aelodau Aur (Retention People)

Mynegodd yr Aelod Cabinet dros Wastraff, Hamdden a Mannau Gwyrdd ei bleser o gael cyhoeddi bod Canolfannau Chwaraeon a Hamdden Caerffili wedi ennill Gwobr Profiad Aelodau Aur yn ddiweddar gan Retention People.

Nododd y Cyngor fod hyn wir yn destament i waith caled ac ymroddiad Staff Canolfannau Hamdden y Cyngor, a oedd wedi darparu profiad eithriadol i aelodau, mewn blwyddyn heriol arall. I gyflawni'r wobr bwysig hon, cafodd defnyddwyr gwasanaethau eu gwahodd i roi adborth ar eu profiad ac a fyddent yn argymell ein Canolfannau Hamdden i eraill. Trwy ddefnyddio proses Net Promoter Score, sydd wedi'i achredu'n allanol ac sy'n gosod sefydliadau ar draws y Deyrnas Unedig mewn trefn, enillont y Wobr Aur am gynnig ansawdd eithriadol.

Estynnodd y Maer groeso i Ann Goss, ar ran y Gwasanaethau Hamdden, i'r Cyngor a gofynnodd i'r Aelodau ymuno â hi i gydnabod gwaith ac ymroddiad arbennig staff ein Canolfannau Hamdden.

Criw Casglu'r Flwyddyn

Mynegodd yr Aelod Cabinet dros Wastraff, Hamdden a Mannau Gwyrdd ei bleser o allu cymryd eiliad i gofio holl staff casglu sbwriel y Cyngor a weithiodd trwy gydol y pandemig diweddar, gan ymdopi'n wych â chyflwyno mesurau diogelwch ychwanegol, gan gynnwys defnyddio cerbydau confoi i sicrhau ein bod yn dilyn rheolau'r llywodraeth yn ystod y cyfnod clo, a delio gyda chynnydd enfawr yn lefel y gwastraff wrth i bobl fanteisio ar y cyfle i glirio llofftydd, garejis a siediau.

Nododd y Cyngor fod tri aelod staff o'r fath, Russell Hurley, Duncan Mazurczak a Ross Mazurczak, wedi gweithio gyda'i gilydd fel Rownd Sbwriel 1 ers dros 18 mlynedd a'u bod, trwy gydol yr amser hwnnw, wedi derbyn canmoliaeth a llythyron o ddiolch oddi wrth aelodau'r cyhoedd. Enwebwyd y tîm eithriadol hwn am Wobr Criw Casglu'r Flwyddyn ac, er nad oeddent yn llwyddiannus, rhannodd yr Aelod Cabinet un digwyddiad a ddangosodd eu parodrwydd i fynd y filltir ychwanegol.

Ym mis Chwefror '22, daeth y criw ar draws dyn yn waed drosto ac yn cario cyllell gegin fawr. Ac yntau'n amlwg yn ffwndrus ac yn berygl iddo'i hun ac, efallai, eraill, fe wnaeth y criw ei bwyllo, galw'r gwasanaethau brys ac aros gydag ef tra'r oedd yn aros am gymorth. Er bod delio â'r sefyllfa drawmatig hon wedi achosi rhyw awr o oedi iddynt, arhosont i gwblhau eu rownd gasglu. Am ei ran, derbyniodd Darren Mazurczak lythyr o ddiolch am ei hunanfeddiant, ei ddewrder a'i wasanaeth i'r cyhoedd oddi wrth Brif Uwch-arolygydd Heddlu Gwent.

Er nad oedd y Tîm yn gallu bod yn bresennol, rhoddodd y Maer wybod i'r Cyngor ei bod wedi cyfarfod â holl Aelodau'r Tîm yn bersonol a diolch iddynt am eu dewrder a'u trugaredd.

Ysgol Gymraeg Gilfach Fargoed ac Ysgol Bro Sannan

Mynegodd yr Aelod Cabinet dros Addysg a Chymunedau ei phleser o gael cydnabod gwaith gwych Mr Jamie Hallett, Pennaeth Gweithredol, a Mrs Patricia Wood, Cadeirydd Llywodraethwyr, Ysgol Gymraeg Gilfach Fargoed ac Ysgol Bro Sannan.

Nododd y Cyngor fod ESTYN wedi arolygu Ysgol Bro Sannan ac Ysgol Gymraeg Gilfach Fargoed ym mis Hydref 2019 a barnu bod angen gwelliant sylweddol arnynt. Penodwyd Mr Hallet yn Bennaeth Gweithredol ar y ddwy ysgol ac, erbyn mis Mehefin 2022, roedd yr ysgolion wedi cael adroddiadau arolygu llwyddiannus a thynnwyd yr ysgolion o'r categori statudol.

Cafodd Aelodau wybod bod Mr Hallet wedi bod yn Arweinydd ysbrydoledig a'i fod ef a'i staff wedi parhau i wneud cynnydd da yn holl argymhellion ESTYN. Mae morâl y staff yn dda ac mae disgyblion, eu teuluoedd a'u cymunedau yn rhoi pwys ar y ddwy ysgol. Enwebwyd Mrs Wood yn Gadeirydd y Llywodraethwyr yn y ddwy ysgol gan yr Awdurdod Lleol ac roedd wedi bod yn ymroddedig tu hwnt i'w rôl wirfoddol, gan roi llawer o amser i'r ddwy ysgol i sicrhau bod y llywodraethu wedi cael ei gryfhau.

Estynnodd y Maer groeso i Jamie Hallet a Patricia Wood i'r Cyngor a gofynnodd i Aelodau ymuno â hi i fynegi eu diolch a'u gwerthfawrogiad am yr ymdrechion a wnaed gan bawb.

Canlyniadau Arholiadau 2022

Mynegodd Arweinydd y Cyngor ei falchder a'i edmygedd o holl Ddysgwyr Caerffili am eu canlyniadau arholiad rhagorol yn 2022. Ar ôl wynebu heriau digynsail Pandemig COVID-19, teimlai ei bod ond yn gywir ac yn briodol bod y Cyngor yn cydnabod ac yn dangos eu gwerthfawrogiad tuag at ymdrechion disgyblion a staff. Gofynnodd y Maer i'r Cyngor ymuno â hi i ddangos eu gwerthfawrogiad tuag at ddisgyblion a staff holl ysgolion Caerffili a'u llongyfarch ar eu llwyddiant mewn arholiadau.

5. DATGANIADAU O FUDDIANT

Ni chafwyd unrhyw ddatganiadau o fuddiant ar ddechrau nac yn ystod y cyfarfod.

6. COFNODION – CYNGOR – 19 GORFFENNAF 2022

Yn amodol ar ddiwygiad, sef bod y Cynghorydd A. Broughton-Pettit wedi'i gofnodi'n anghywir fel y Cynghorydd A. Pettit-Broughton yn y rhestr mynychwyr

> PENDERFYNWYD cymeradwyo cofnodion y Cyngor a gynhaliwyd ar 19 Gorffennaf 2022 (cofnodion rhifau 1-10) fel cofnod cywir.

7. DERBYN AC ATEB CWESTIYNAU A DDERBYNIWYD O DAN REOL GWEITHDREFN 10(4)

Cwestiwn i'r Aelod Cabinet dros Wastraff, Hamdden a Mannau Gwyrdd, y Cynghorydd C. Morgan, gan y Cynghorydd A. Leonard.

A all yr Aelod Cabinet dros Wastraff, Hamdden a Mannau Gwyrdd esbonio beth mae'r Cyngor yn ei wneud i warchod ein blodau gwyllt naturiol a'n bioamrywiaeth pryfed, ynghyd â chyflwyno cyfundrefn torri gwair sy'n fwy cyfeillgar?

Ymateb gan yr Aelod Cabinet dros Wastraff, Hamdden a Mannau Gwyrdd i'r Cynghorydd A. Leonard.

Mae eisoes yn ofynnol i Awdurdodau Cyhoeddus yng Nghymru geisio cynnal a gwella bioamrywiaeth. Mae Cyngor Sir Caerffili yn gwneud cyfraniad sylweddol, yn enwedig trwy'r rheolaeth ar dir ac er budd bioamrywiaeth, gan gynnwys ein parciau gwledig, ein gwarchodfeydd natur lleol a chenedlaethol, a thir cadwraeth arall. Fel Aelod o Bartneriaeth Grid Gwyrdd Gwent, rydym wedi cydweithio i ddatblygu prosiectau gwella seilwaith gwyrdd ar raddfa ranbarthol, gan gynnwys cyfrannu at y Strategaeth Seilwaith Gwyrdd Ranbarthol, Prosiectau Mynediad, Prosiectau Bioamrywiaeth fel Nature Isn't Neat a Rheoli Rhywogaethau Goresgynnol ac Estron Bioamrywiaeth Trefol, paratoi Cynllun Gweithredu Adfer Natur Gwent a gwella cynefinoedd ar hyd Afonydd Ebwy, Rhymni a Sirhywi. Enghraifft arall o brosiectau strategol plannu coed oedd plannu coed yn Fferm Ynys Howell ac wrth ymyl Parc Gwledig Cwm Sirhywi, a ddarparodd goridor bywyd gwyllt sylweddol rhwng Gwarchodfa Natur Leol Graig Goch a choetir Cyfoeth Naturiol Cymru ac Afon Sirhywi. Cafodd rhyw 4500 o goed eu plannu ar gae pwrpasol i wirfoddolwyr, gyda'r gwirfoddolwyr yn gweithio mewn partneriaeth â GAVO Groundwork Wales, Cadwch Gymru'n Daclus a Cyfoeth Naturiol Cymru. Rhoddodd y cynlluniau strategol plannu coed fuddion i iechyd a lles meddyliol a chorfforol, gyda budd pellach yn y tymor canol a'r tymor hir trwy ddarparu lle i wirfoddolwyr, trigolion ac ymwelwyr ymweld ac ymlacio, a mwynhau'r coetir nawr ac yn y dyfodol.

Roedd atal gwasanaethau torri gwair yn ystod cyfnodau clo wedi cael effaith i'w chroesawu ar ein hamgylchedd; nododd astudiaeth a wnaed yn 2021 amrywiaeth eang o gynefinoedd lleiniau ymyl ffordd. Gwnaed argymhellion penodol i safle i wella bioamrywiaeth ar gyfer rhan o lain ymyl ffordd a chynhyrchwyd cyfres o fesurau mwy cyffredinol ar gyfer lleiniau ymyl ffordd ar draws y fwrdeistref sirol. Y pwysicaf o'r rhain oedd gadael ymylon ffyrdd a thorri yn ystod y gwanwyn a dechrau'r haf er mwyn caniatáu i blanhigion flodeuo a hau hadau, a chael gwared ar doriadau gwair fel bod porfeydd bras yn dominyddu llai. Yn ogystal, ymgynghorwyd ag Aelodau Lleol a nodwyd nifer o leoliadau eraill lle byddai'r gwair yn cael ei adael i ffynnu a thyfu. Cymeradwyodd y Cabinet yr holl newidiadau hyn i'n hymagwedd at dorri gwair ym mis Tachwedd 2021 ac fe'u rhoddwyd ar waith dros y tymor tyfu eleni.

Mae ein rôl addysg a gweithio gyda thrigolion ac Aelodau yr un mor bwysig â'r mentrau gan fod angen eu cefnogaeth arnom i reoli ardaloedd eraill, fel Tir Comin. Ein nod yw mabwysiadu ymagwedd reoli ecosystem gyfan, pan fyddwn yn cynnal mentrau ar gyfer cynefinoedd a rhywogaethau trwy amddiffyn a chreu. Mae torri gwair yn un agwedd yn unig ar y ffordd y gallwn gynnal a gwella bioamrywiaeth. Trefnwyd Seminar i Aelodau ar gyfer 24 Hydref 2022, pan fydd cyfle i Aelodau ddysgu am fioamrywiaeth ac ymgyrch Nature Isn't Neat a, hefyd, gweld enghreifftiau o'r ffordd y mae ein hymagwedd newydd at dorri gwair yn hybu bioamrywiaeth. Bwriedir cyflwyno adroddiad pellach ar dorri gwair i'r Pwyllgor Craffu a'r Cabinet ym mis Chwefror a mis Mawrth flwyddyn nesaf, yn y drefn honno, gyda'r nod o weithredu unrhyw ddatblygiadau pellach mewn pryd ar gyfer tymor tyfu'r flwyddyn nesaf.

ADRODDIADAU SWYDDOGION

8. UWCHGYNLLUN CWM SIRHYWI ISAF A CHWM EBWY ISAF

Ystyriwyd yr adroddiad a oedd yn mynd ati i roi cyngor i Aelodau ar y prif faterion a nododd ymatebwyr yn ystod yr ymgynghoriad a gynhaliwyd â'r cyhoedd rhwng 19 Ionawr 2022 a 2 Mawrth 2022 ar Uwchgynllun drafft Cwm Sirhywi Isaf a Chwm Ebwy Isaf.

Nododd y Cyngor fod 27 sylw wedi dod i law yn ystod y cyfnod ymgynghori ac fe'u cyfeiriwyd at Atodiad 1 yr adroddiad ac Adroddiad yr Ymgynghoriad Cyhoeddus, sy'n ystyried y materion a godwyd, yn rhoi ymatebion Swyddogion ac yn gwneud argymhellion. Nododd Aelodau fod y prif faterion a godwyd yn yr ymgynghoriad yn canolbwyntio ar y potensial am dwristiaeth y tu hwnt i Ffordd Goedwig Cwmcarn, gwneud canol trefi yn fwy diogel i bobl sy'n cerdded, yn defnyddio teclynnau ag olwynion neu'n beicio, hyrwyddo treftadaeth ddiwydiannol yr ardal, ailddefnyddio adeiladau gwag a gwarchod amgylcheddau naturiol a rhannol naturiol.

Mae Uwchgynllun Cwm Sirhywi Isaf a Chwm Ebwy Isaf yn un o 5 uwchgynllun sy'n cwmpasu'r fwrdeistref sirol ac yn rhoi amlinelliad manylach o'r cyfleoedd adfywio yn eu hardaloedd perthnasol. Mae sylfaen cyflogaeth ac economi dwristiaeth yr uwchgynllun yn cynnig cyfleoedd gwirioneddol am adnewyddu a thwf economaidd, a'i nod yw integreiddio'r sylfaen cyflogaeth, adwerthu, twristiaeth a hamdden gref i wireddu budd ychwanegol ar gyfer adferiad a thwf economaidd.

Nodwyd bod y rhan fwyaf o'r ymatebwyr yn cefnogi'r weledigaeth, yr amcanion strategol a'r strategaeth ddatblygu gyda chefnogaeth i lawer o gynigion, ond cafwyd awgrymiadau am rai newidiadau a phrosiectau ychwanegol hefyd.

Croesawodd Aelod y fersiwn hon o'r uwchgynllun ac roedd yn falch o nodi y gwrandawyd ar arsylwadau a chyfeiriwyd at wasanaethau bws lleol. Cadarnhaodd yr Aelod bod gweithio gyda Swyddogion a Stagecoach wedi sicrhau ymrwymiad i wasanaeth bob hanner awr a'i fod yn gobeithio y byddai hyn yn cael ei ffurfiol yn sgil cymeradwyo'r Uwchgynllun. Cyfeiriodd yr Aelod at dudalen 72 y cynllun a'r Amcan Llesiant fan yno, a'r ffaith nad oedd cyfeiriad at adeiladu gwaith prosesu gwastraff yn Nine Mile Point na lorïau'n teithio trwy'r pentrefi cyfagos.

Dywedodd y Pennaeth Cynllunio ac Adfywio y byddai'n amhriodol iddi wneud sylwadau am y pwyntiau a godwyd, gan fod hyn yn gysylltiedig â chais cynllunio penodol.

Yna, cyfeiriwyd at Barc Gwledig Ynys Howell a'i dynnu o'r uwchgynllun, a beth allai gael ei wneud, os o gwbl, i wella'r safle. Yna, ceisiwyd eglurhad ynghylch yr adeilad gwag presennol sy'n cael ei alw'n 'Swyddfa Warden y Lleuad Llawn', a ph'un a allai hwn gael ei gynnwys yn yr uwchgynllun.

Cadarnhaodd Swyddogion fod Ynys Howell mewn perchenogaeth breifat ar hyn o bryd, ond roedd y Tîm Cefn Gwlad yn gweithio gyda'r perchenogion i wella'r safle a'i wreiddio ymhellach yn y Parc Gwledig yn ei gyfanrwydd. Nododd y Cyngor mai diben yr Uwchgynllun yw darparu sylfaen ar gyfer gwneud ceisiadau o ran prosiectau adfywio ac, felly, roedd yn canolbwyntio ar y parc gwledig yn ei gyfanrwydd, yn hytrach na'i rannau unigol, a dyna pam nad yw'r adeilad gwag wedi'i restru. Cadarnhaodd y Swyddog ei fod wedi'i gynnwys o fewn y parc ac y byddai'n rhan o'r cynnig i wella'r ardal. Gan ei fod mewn perchenogaeth breifat, ni fyddai proses gwneud ceisiadau'r Cyngor yn cyfrif amdano, ac mae'r adeilad gwag yn llunio rhan o'r cynnig ehangach ar gyfer y Parc Gwledig yn ei gyfanrwydd.

Gofynnwyd i Aelodau gadw mewn cof nad yw'r Uwchgynllun yn manylu ar brosiectau penodol; byddai hynny'n digwydd pan roedd prosiectau'n cael eu paratoi i symud ymlaen yn y broses gwneud ceisiadau.

Trwy Microsoft Forms a chadarnhad llafar, ac wrth nodi bod 48 o blaid, 0 yn erbyn a 5 yn ymatal, cymeradwywyd yr argymhellion sydd wedi'u cynnwys yn adroddiad y Swyddogion.

PENDERFYNWYD: -

1. Bod y sylwadau a ddaeth i law fel rhan o'r ymgynghoriad cyhoeddus yn cael eu hystyried a bod argymhellion y Swyddogion a amlinellir yn Adroddiad yr Ymgynghoriad Cyhoeddus yn cael eu cymeradwyo.

2. Bod Uwchgynllun Cwm Sirhywi Isaf a Chwm Ebwy Isaf fel Canllaw Cynllunio Atodol i Gynllun Datblygu Lleol Mabwysiedig Bwrdeistref Sirol Caerffili ac fel adnodd ar gyfer llywio gweithgarwch adfywio yng Nghwm Sirhywi Isaf a Chwm Ebwy Isaf yn cael ei gymeradwyo.

9. ADRODDIAD MONITRO BLYNYDDOL CYNLLUN DATBLYGU LLEOL BWRDEISTREF SIROL CAERFFILI HYD AT 2021 (GAN GYNNWYS YR ADRODDIAD BLYNYDDOL AR YR ARDOLL SEILWAITH CYMUNEDOL)

Ystyriwyd yr adroddiad, a oedd yn ceisio cymeradwyaeth y Cyngor ar gyfer Adroddiad Monitro Blynyddol Cynllun Datblygu Lleol 2022 Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili a'i gyflwyno i Lywodraeth Cymru erbyn 31 Hydref 2022, er mwyn diwallu gofynion statudol y Cyngor.

Nododd y Cyngor fod data monitro Adroddiad Monitro Blynyddol 2022 yn rhoi cipolwg diddorol i weithredu'r CDLl dros y cyfnod monitro a chyfeiriwyd Aelodau at Adran 2.2 adroddiad y Swyddog a'r wybodaeth yn yr adran honno.

Cynghorwyd Aelodau nad oedd Polisi Cynllunio SP15 (Y Targed Tai Fforddiadwy) yn cael ei gyflawni a bod angen ymyrryd, nac Amcan 9, sy'n anelu at sicrhau bod ystod digonol a phriodol o safleoedd tai ar gael yn y lleoliadau mwyaf addas. Er bod SP14 (Cyfanswm Gofyniad Tai) yn cael ei ddiwallu gan ei fod yn cael ei asesu yn erbyn cyfradd adeiladu flynyddol isel, mae diffyg o hyd yn nifer yr unedau a gwblhawyd yn 2022 o asesu hynny yn erbyn y gofyniad blynyddol a amlinellir yn y trywydd tai. Mae SP3 (Datblygu yng Nghoridor y

Cysylltiadau Deheuol) yn methu hefyd gan ei fod yn mesur canran y datblygiadau sy'n digwydd ar dir llwyd.

O ran Amcan 17, sy'n mynd i'r afael â rôl Caerffili fel canolfan fasnachol a chyflogaeth, ac Amcan 18, sy'n ymwneud â darparu ac amddiffyn tir at ddiben cyflogaeth, nodwyd hefyd nad oedd y rhain yn cyflawni yn ôl y gofyn am fod prinder pobl yn ymgymryd â lleoedd ac roedd nifer y bobl a gafodd ganiatâd yn isel yn ystod y cyfnod monitro.

Cyfeiriodd Aelod at y drafferth y mae cyplau ifanc sy'n gweithio yn ei chael i allu prynu eiddo am y tro cyntaf a'r straen a'r pryder y mae hyn yn ei achosi, a holodd beth allai gael ei wneud i wella targedau tai fforddiadwy.

Esboniodd y Swyddog fod y ffigurau sydd wedi'u cyflwyno yn yr Adroddiad Monitro Blynyddol yn un elfen yn unig o'r targed tai fforddiadwy, sef y rhai sy'n cael eu darparu trwy'r system gynllunio fel rhan o geisiadau cynllunio, a byddai'r rhain ar y cyfan yn cyd-fynd â'r farchnad a'r datblygiad tai ehangach. I egluro, esboniodd fod y polisi wrth gyfeirio at dai fforddiadwy yn ymwneud â thai sy'n cael eu rhentu'n gymdeithasol, perchenogaeth tai cost isel ac ati, ac nad yw'n cyfeirio at dai'r farchnad fel y cyfryw. Nodwyd bod 334 o unedau tai fforddiadwy wedi'u darparu trwy'r system gynllunio yn ystod cyfnod y cynllun yn erbyn targed o 964, fodd bynnag roedd darparu tai fforddiadwy trwy'r system gynllunio yn gyfran fechan o'r ddarpariaeth tai fforddiadwy yn gyfan gwbl, sydd hefyd yn cael eu darparu trwy Landlordiaid Cymdeithasol ac nawr, o bosibl, trwy Tai Caerffili.

Trwy Microsoft Forms a chadarnhad llafar, ac wrth nodi bod 50 o blaid, 0 yn erbyn a 4 yn ymatal, cymeradwywyd yr argymhellion sydd wedi'u cynnwys yn adroddiad y Swyddog.

PENDERFYNWYD: -

1. Bod Adroddiad Monitro Blynyddol 2022 yn cael ei gymeradwyo, a'i ganfyddiadau'n cael eu hystyried a'u nodi.

2. Bod Adroddiad Monitro Blynyddol 2022 (gan gynnwys yr Adroddiad Blynyddol ar yr Ardoll Seilwaith Cymunedol) yn cael ei gyflwyno i Lywodraeth Cymru cyn y dyddiad olaf, sef 31 Hydref 2022.

10. ALLDRO DROS DRO CYLLIDEB REFENIW 2021/22

Nododd y Cyngor fod y Cabinet wedi ystyried yr adroddiad yn ei gyfarfod ar 26 Medi 2022 ac y cytunwyd yn unfrydol ar yr argymhellion ym mharagraffau 3.1.3 i 3.1.6. Cynghorwyd Aelodau fod penderfyniadau o ran y Gronfa Gyffredinol Wrth Gefn yn fater i'r Cyngor ac, felly, cyflwynwyd yr adroddiad nawr i'r Cyngor ei ystyried.

Ystyriwyd yr adroddiad, a roddodd fanylion alldro dros dro'r gyllideb refeniw ar gyfer blwyddyn ariannol 2021/22 cyn i Archwilio Cymru gwblhau'r archwiliad blynyddol allanol o'r cyfrifon.

Cynghorwyd y Cyngor fod yr Awdurdod wedi parhau i gael costau ychwanegol sylweddol yn ystod blwyddyn ariannol 2021/22 oherwydd pandemig Covid 19 a'i fod, hefyd, wedi colli incwm mewn sawl maes allweddol. Fodd bynnag, parhaodd Llywodraeth Cymru i barhau i ddarparu cyllid sylweddol i Awdurdodau Lleol i dalu am gostau ychwanegol a cholledion incwm trwy Gronfa Galedi Covid 19, a neilltuodd £19.025m i Gyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili yn ystod y flwyddyn ariannol honno. Fodd bynnag, daeth y cyllid hwn i ben ar 31 Mawrth 2022, gydag Awdurdodau Lleol bellach yn gorfod rheoli unrhyw effeithiau ariannol parhaus yn sgil y pandemig o gyllidebau presennol.

Cyfeiriwyd Aelodau at Atodiad A yr adroddiad, a grynhodd sefyllfa'r alldro, a'i danwariant net o £37.815m. Fe wnaeth hyn gynnwys tanwariant o £5.2m ar gyfer ysgolion a thanwariant o

£7.342m yn y Cyfrif Refeniw Tai. Mae'r tanwariant o £5.923m ar ysgolion wedi'i glustnodi ac, o ganlyniad, mae balansau ysgolion wedi codi o £11.3m i £17.2m ar 31 Mawrth 2022. Nodwyd bod y tanwariant ar gyfer ysgolion yn fwy na'r hyn a ragwelwyd yn wreiddiol oherwydd derbyniwyd cyllid grant ychwanegol gan Lywodraeth Cymru tua diwedd y flwyddyn ariannol.

Cynghorwyd y Cyngor y byddai tanwariant y Cyfrif Refeniw Tai yn cael ei ddwyn ymlaen i gynorthwyo â'r defnydd yn y dyfodol, fel cynyddu'r cyflenwad tai a chynnal Safon Ansawdd Tai Cymru mewn eiddo presennol.

Nododd y Cyngor fod lefel y tanwariant ar gyfer 2021/22, fel yn achos blwyddyn ariannol 2020/21, yn uwch o lawer nag mewn blynyddoedd blaenorol, gan adlewyrchu effaith barhaus y pandemig ar newidiadau mewn arferion gweithio a graddau'r cymorth ariannol a ddarparwyd, na chafwyd elfennau sylweddol ohono tan tua diwedd y flwyddyn ariannol.

Cyfeiriwyd y Cyngor at adran 5.10 adroddiad y Swyddogion, a amlinellodd yr effaith ar y Gronfa Gyffredinol, ac at Atodiad C, a restrodd y defnydd ar gronfeydd wrth gefn a gymeradwywyd gan Swyddogion gan ddefnyddio pwerau dirprwyedig. O ran yr argyfwng costau byw, cydnabuwyd yr effaith sylweddol ar gymunedau a chyllidebau Cynghorau, fodd bynnag, mae tanwariant 2021/22 yn cynnig rhai cyfleoedd am fuddsoddiadau unigol targedig i ddarparu rhywfaint o gymorth mawr ei angen, er y byddai'r rhagolwg ariannol wrth symud ymlaen yn heriol tu hwnt.

Ceisiwyd eglurhad ynghylch tanwariant Addysg ac a fyddai'r cyllid hwn yn cael ei roi'n ôl i ysgolion i gefnogi dysgwyr sy'n dod trwy Genhedlaeth Covid, sydd wedi colli allan yn sylweddol o safbwynt addysgu wyneb yn wyneb, er enghraifft i ariannu cynorthwywyr addysgu ychwanegol i gefnogi cenhedlaeth dysgwyr Covid a roddwyd dan gymaint o anfantais. Hefyd, ceisiodd yr Aelod sicrwydd y byddai tanwariant y Blynyddoedd Cynnar yn cael ei ddefnyddio hefyd i gefnogi teuluoedd a chyflogi mwy o staff, yn hytrach na hybu cronfeydd pellach wrth gefn.

Cadarnhaodd y Swyddog Adran 151 bod angen fel arfer i ysgolion gynhyrchu cynllun gweithredu'n dangos sut byddent yn defnyddio'u balans dros ben, dros gyfnod o flwyddyn fel arfer. A chofio bod y balansau hyn yn uwch na'r arfer, roedd Swyddogion Cyllid yn gweithio gydag ysgolion i edrych ar hyn dros gyfnod 2 flynedd ond byddai'r cynlluniau hyn yn fater i Benaethiaid a Chyrff Llywodraethu. O ran Tîm y Blynyddoedd Cynnar, cadarnhawyd bod hyn yn dod o fewn y Gronfa Gyffredinol ac, ar hyn o bryd, bod 50% o'r tanwariant yn cael ei gymryd yn ôl i falans y gronfa gyffredinol, gyda'r 50% sy'n weddill yn cael ei gadw gan y meysydd gwasanaeth. Mae hyn yn fater o bolisi a'r rheswm pam y bydd 50% o danwariant y Blynyddoedd Cynnar yn cael ei gymryd yn ôl i falansau'r gronfa gyffredinol.

Trwy ddull sgwrsio'r cyfarfod, cododd Aelod gwestiwn ynghylch dyfarniadau tâl a dywedodd y Swyddog Adran 151 bod cost gyfan y dyfarniad tâl tua 7% ar y gyllideb. Ym mis Chwefror, ariannwyd cynnydd o 3%, felly byddai angen dod o hyd i'r £6.8m ar sail y cynnig tâl diweddaraf o falansau'r gronfa gyffredinol, gan nad oedd cyllidebau meysydd gwasanaeth unigol yn gallu diwallu hyn ar hyn o bryd. Cafodd Aelodau wybod y byddai angen ariannu'r sefyllfa hon flwyddyn ar ôl blwyddyn, felly wrth symud i 23/24, byddai'r Cyngor eisoes mewn sefyllfa lle byddai'n rhaid iddo dalu'r £7m hwn cyn y gellid edrych ar unrhyw ddyfarniadau tâl a wnaed ym mlwyddyn ariannol 23/24.

Cyfeiriwyd at adran 5.1.1 adroddiad y Swyddog a'r incwm a gollwyd mewn sawl maes allweddol, a cheisiwyd eglurhad ynghylch pa feysydd penodol a oedd wedi colli incwm. Amlygodd y Swyddog Adran 151 feysydd fel y gwasanaethau hamdden, a gollodd incwm o ganlyniad i gau a chyfyngiadau oherwydd cadw pellter cymdeithasol, ac roedd gwasanaethau twristiaeth wedi colli incwm sylweddol hefyd. Cadarnhaodd y Swyddog y byddai'n rhoi crynodeb manwl i'r Aelod yn dilyn y cyfarfod.

Yna, ceisiwyd eglurhad ynghylch 5.2.7 yr adroddiad a'r tanwariant o £290 mil mewn gwasanaethau seicoleg a chwnsela yn yr ysgol, yn rhannol oherwydd oedi mewn recriwtio ac a fyddai'r arian hwn yn cael ei gadw ar gyfer recriwtio yn ddiweddarach. Cadarnhaodd y Swyddog fod nifer o feysydd, fel y'u hamlinellir yn yr adroddiad, lle'r oedd y Cyngor wedi cael problemau recriwtio a byddai'r gyllideb sylfaen yn yr holl feysydd hynny ar gael o hyd ym mlwyddyn ariannol 23/24.

Yna, cyfeiriodd yr Aelod at adran 5.3.5 a'r tanwariant sylweddol a amlinellwyd ar gyfer Cymorth Busnes. Cadarnhaodd y Swyddog Adran 151 mai dyma'r ffordd y cyfrifwyd am rai o'r grantiau a ddaeth oddi wrth Lywodraeth Cymru. Yna, ceisiodd yr Aelod eglurhad ynghylch ystyr y term 'cyllid amrywiol'. Cynghorodd y Swyddog fod hyn yn cwmpasu sawl maes, fel budd-dal tai, ardollau ar y Cyngor gan yr Heddlu a'r Gwasanaeth Tân, Cynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor, a rheoli dyledion. Nododd y Cyngor fod adroddiad manwl ar y materion hyn yn cael ei gyflwyno i Bwyllgor Craffu Polisi ac Adnoddau trwy gydol y flwyddyn.

Cyfeiriwyd at y diffyg yng nghasglu'r Dreth Gyngor ac a oedd cyfraddau casglu yn gwella. Cynghorodd y Swyddog Adran 151 fod cyfraddau'n dod yn ôl i'r un lefelau ag yr oeddent cyn y pandemig ac y byddent yn cael eu hadolygu ar ddiwedd y flwyddyn ariannol. Os na fyddai galw ar y cyllid a glustnodwyd ar gyfer diffyg posibl, byddai'n cael ei ryddhau i'r gronfa gyffredinol bryd hynny.

Aeth yr Aelod ymlaen i gwestiynu'r tanwariant o £1.5m yn y Gyllideb Seilwaith ac a allai hwn gael ei ddefnyddio i ad-dalu rhai meysydd gwasanaeth llai a oedd wedi'u hesgeuluso, fel glanhau cysgodfannau bysiau yn amlach, glanhau arwyddion ffyrdd budr i wella gweledigedd yn amlach, ac ati. Cadarnhaodd Cyfarwyddwr Corfforaethol yr Economi a'r Amgylchedd fod mwy y gallai'r Cyngor ei wneud, yn ôl pob tebyg, yn y meysydd a amlygwyd, ond roedd cyfuniad o ffactorau pam roedd gwasanaethau mewn rhai meysydd wedi gostwng, megis ffactorau cyllidebol, effaith pandemig Covid 19 ac effaith prinder llafur ar hyn o bryd mewn sawl maes gwasanaeth lle'r oedd trafferthion yn parhau o ran recriwtio, gan gynnwys recriwtio gweithwyr llaw. Dywedodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol y dylai Aelodau gysylltu ag ef neu ei ysgrifenyddes os oedd ganddynt unrhyw broblemau penodol yn eu ward, ac y byddai'n gwneud yn siŵr eu bod yn cael eu datrys.

Ceisiwyd eglurhad ynghylch y Grant Ysgolion Bach gan Lywodraeth Cymru a thynnu'r grant hwn yn ôl, ac a allai tanwariant Addysg gael ei ddefnyddio i wneud yn iawn am y diffyg hwn. Dywedodd y Swyddog Adran 151 mai grant Llywodraeth Cymru oedd hwn felly, yn anffodus, eu penderfyniad nhw oedd parhau â'r grant neu ei dynnu'n ôl. Roedd y grant wedi mynd i 4 ysgol fach yn y fwrdeistref ac roedd yn credu bod yr ysgolion dan sylw wedi cael 12 mis ychwanegol o rybudd gan Lywodraeth Cymru bod y grant yn mynd i gael ei dynnu'n ôl. O ran defnyddio tanwariant Addysg i gynorthwyo'r ysgolion llai hyn, mater i'r Aelodau fyddai hynny.

Mynegodd Aelod bryder bod y Cyngor yn 'cronni' miliynau o bunnoedd a holodd pam nad oedd y symiau hyn yn cael eu gwario, ond gofynnir i drigolion Caerffili dalu mwy o'r Dreth Gyngor bob blwyddyn. O ystyried yr effaith ar recriwtio a chadw staff, a fyddai'n well defnyddio'r cronfeydd wrth gefn hyn i dalu mwy i staff, gwneud swyddi gwag yn fwy deniadol a denu ymgeiswyr. O ystyried cost gynyddol nwy, trydan a thanwydd, dylai'r Cyngor fod yn talu mwy i'w weithwyr yn hytrach na chronni lefelau sylweddol o gronfeydd wrth gefn.

Wrth ymateb i'r pwyntiau a godwyd, cadarnhaodd yr Aelod Cabinet y byddai adroddiad yn cael ei gyflwyno i Bwyllgor Craffu Polisi ac Adnoddau yn nes ymlaen eleni ar gronfeydd wrth gefn a chawsai Aelodau gyfle i graffu'n llawn a rhoi sylwadau bryd hynny. O ran lefel y cronfeydd wrth gefn, gyda chwyddiant yn saethu i fyny, cyfraddau llog yn codi a'r argyfwng costau byw, dywedodd yr Aelod Cabinet fod heriau difrifol yn prysuro tuag atom ac y bydd trigolion yn wynebu sefyllfaoedd digynsail, felly diolch i'r rheolaeth ariannol gadarn ar yr awdurdod hwn a lefel ei gronfeydd wrth gefn, roedd y sefydliad mewn sefyllfa ariannol gadarn a sefydlog i ateb yr heriau hyn a helpu.

Croesawodd yr Aelod sylwadau'r Aelod Cabinet a gofynnodd, o ystyried yr argyfwng a lefel y cronfeydd wrth gefn, a fyddai peidio â chodi'r Dreth Gyngor y flwyddyn nesaf yn cael ei ystyried. Cadarnhaodd yr Aelod Cabinet y byddai pob opsiwn posibl a'r hyn y gellir ei wneud i helpu trigolion yn cael eu harchwilio adeg adolygu'r Cynllun Ariannol Tymor Canolig.

Esboniodd Arweinydd y Cyngor sut roedd cronfeydd wrth gefn wedi'u defnyddio'n sylfaen ar gyfer manteisio ar gerllaw £95m o gyllid cyfatebol, a phwysleisiodd fod y cronfeydd wrth gefn hyn yn golygu bod Caerffili mewn sefyllfa ariannol sefydlog, mewn lle da i helpu pobl y fwrdeistref, boed hynny trwy ei Wasanaethau Cymdeithasol, Addysg neu'r 600 o wasanaethau eraill a ddarperir.

Holodd Aelod am lefel y cyllid sydd ar gael i gynorthwyo trigolion â'r argyfwng costau byw ac fe'i cyfeiriwyd at adran 5.10.2 yr adroddiad a'r tabl yno, a chadarnhawyd bod £3m wedi'i neilltuo i'r Gronfa Caledi Costau Byw a £2.098m ar gyfer Cronfa Wrth Gefn yr Argyfwng Costau Byw.

I gloi, rhoddwyd sicrwydd i Aelodau y byddai pob opsiwn posibl yn cael eu hystyried a'u cyflwyno i'w hystyried gan Aelodau wrth i broses osod y gyllideb ddechrau.

Ar ôl ystyried a thrafod yn llawn, cynigiwyd ac eiliwyd bod pob argymhelliad yn destun pleidlais unigol a, thrwy Microsoft Forms a chadarnhad llafar, yn gysylltiedig ag Argymhelliad 1.3(i), roedd 45 o blaid, 4 yn derbyn a 2 yn ymatal ac yn gysylltiedig ag Argymhelliad 1.3 (ii), roedd 35 o blaid, 10 yn erbyn a 7 yn ymatal, cymeradwywyd y ddau argymhelliad yn adroddiad y Swyddogion.

PENDERFYNWYD: -

1. Bod argymhelliad Pennaeth y Gwasanaethau Ariannol a'r Swyddog Adran 151 i gynnal balans y Gronfa Gyffredinol yn £11.852m, sy'n cynrychioli 3% o gyllideb refeniw net 2022/23, yn cael ei gymeradwyo.

2. Bod y defnydd arfaethedig o falansau dros ben y Gronfa Gyffredinol, sy'n gyfanswm o £14.333m fel yr amlinellir yn Adran 5.10 yr adroddiad atodedig, yn cael ei ystyried a'i gymeradwyo.

11. FFURFLEN YMHOLI ARCHWILIO CYMRU 2021/22

Ystyriwyd y ffurflen a gyflwynodd i'r Cyngor ymatebion i Archwilio Cymru ynghylch ymholiadau am brosesau rheoli o ran atal a chanfod twyll, a chydymffurfio â chyfreithiau a rheoliadau yn ymwneud â datgeliadau yn Natganiadau Ariannol 2021/22.

Cyfeiriwyd Aelodau at Atodiad 1 adroddiad y Swyddog, a amlinellodd ymateb y Cyngor i gwestiynau Archwilio Cymru. Nodwyd bod y cwestiynau hyn yn safonol ar gyfer pob awdurdod lleol ac nad ydynt yn benodol i Gyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili.

Trwy Microsoft Forms a chadarnhad llafar, ac wrth nodi bod 51 o blaid, 0 yn erbyn ac 1 yn ymatal, cymeradwywyd yr argymhellion sydd wedi'u cynnwys yn adroddiad y Swyddog.

PENDERFYNWYD cymeradwyo'r ymateb sydd wedi'i atodi i adroddiad y Swyddog.

12. CYNGOR BWRDEISTREF SIROL CAERFFILI – YMATEB I'R ARGYFWNG COSTAU BYW

Nododd y Cyngor fod y Cabinet wedi ystyried yr adroddiad yn ei gyfarfod ar 26 Medi 2022. Roedd y Cabinet wedi cytuno ar yr ymateb cychwynnol gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili i

gynorthwyo cymunedau a'i drigolion mwyaf bregus â'r argyfwng costau byw, ac fe'i cyflwynir nawr i'r Cyngor er gwybodaeth ac i'w nodi.

Nododd Aelodau'r penderfyniad a wnaed gan y Cabinet ac ystyriwyd yr adroddiad, a oedd yn rhoi diweddariad ar y gwaith sydd eisoes yn cael ei wneud ac yn dangos ystod a graddfa'r cymorth a ddarperir ar hyn o bryd. Cynghorwyd Aelodau nad oedd y cysyniad bod y Cyngor yn cynorthwyo trigolion yn ariannol yn newydd, ac oherwydd bod chwyddiant ar ei lefel uchaf ers dros 30 mlynedd, prisiau ynni'n codi ar y raddfa gyflymaf mewn cof a chostau tanwydd yn cynyddu, bydd llawer o bobl yn methu dod o hyd i'r arian ar gyfer y codiadau hyn a byddant yn wynebu rhai dewisiadau hynod anodd.

Rhoddwyd gwybod i'r Cyngor am y meysydd cymorth allweddol a chydnabu effeithiau ehangach yr argyfwng yn gymdeithasol ac ar iechyd, a nododd fod £3m wedi'i neilltuo i'r Gronfa Caledi Costau Byw, a fyddai'n cefnogi amrywiaeth o fentrau a fyddai'n cynorthwyo cymunedau, a bod £2.098m wedi'i neilltuo i'r Gronfa Argyfwng Costau Byw o falansau'r Gronfa Gyffredinol, a fyddai'n cynorthwyo â phwysau disgwyliedig ar gyllidebau.

Croesawodd Aelodau'r adroddiad a'r cynigion a'r awgrymiadau ynddo, a cheisiwyd eglurhad ynghylch banciau bwyd a rhoddion bwyd. Dywedodd yr Aelod fod rhoddion i fanciau bwyd yn gostwng cymaint fel eu bod nawr yn prynu bwyd i'w ddosbarthu a gofynnodd a fyddai unrhyw gyllid a amlinellwyd yn cael ei neilltuo i fanciau bwyd.

Cadarnhaodd Swyddogion y byddai cymorth yn cael ei roi i fanciau bwyd a mentrau rhannu bwyd trwy grantiau Llywodraeth Cymru yn bennaf, ond un o'r meysydd a oedd dan ystyriaeth oedd ychwanegu at y grantiau hynny trwy'r £3m a neilltuwyd er mwyn eu galluogi i gael cymorth ychwanegol.

O ran y £3m a neilltuwyd ar gyfer y Gronfa Caledi Costau Byw a'r £2.098m ar gyfer y Gronfa Argyfwng Costau Byw, holodd Aelod a fyddai'r swm hwn yn ddigonol a hoffai weld y swm yn cael ei gynyddu i £10m. Estynnodd yr Aelod ei longyfarchiadau i Swyddogion am y gwaith a oedd eisoes yn mynd rhagddo.

Nododd y Cyngor fod y cyllid a glustnodwyd yn cynrychioli dyraniad cychwynnol a bod gwaith yn y maes hwn yn waith parhaus, gyda Swyddogion yn gweithio i nodi'r ffyrdd gorau o ddarparu cymorth ar draws sawl maes, fel yr amlinellir yn yr adroddiad, a bod cyllidebau'n cael eu hadolygu'n barhaus.

Cadarnhaodd swyddogion fod lefel helaeth o gymorth eisoes wedi'i ddarparu dros y misoedd diwethaf, gyda 4000 o drigolion eisoes wedi cael cymorth uniongyrchol, 2000 ohonynt wedi cyfeirio'u hunain trwy Gofalu am Gaerffili. Nodwyd bod hyn yn cynnwys gweinyddu taliad tanwydd y gaeaf, taliadau i ofalwyr di-dâl, Cynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor ac ati, a oedd eisoes yn rhoi miliynau o bunnoedd o gymorth i'n trigolion. Dywedwyd wrth y Cyngor bod £3.2m o incwm ychwanegol eisoes wedi'i greu ar gyfer trigolion a bod y Swyddog eisoes wedi bod yn gweithio gyda Chyngor ar Bopeth ar ddarparu talebau tanwydd a symiau atodol ar gyfer mesuryddion rhagdalu i drigolion mewn tlodi tanwydd. Nodwyd ymhellach bod dros 12,000 o geisiadau eisoes wedi cyrraedd ar gyfer taliadau tanwydd y gaeaf. Rhoddwyd blaenoriaeth i adnoddau i ehangu a gwella'r cymorth cymunedol i'r bobl â'r angen mwyaf, ond roedd angen gwneud rhywfaint o waith yn fewnol o hyd i ddileu dyblygu a chymhlethdod, gan symleiddio mynediad fel bod trigolion yn gwybod yn union at bwy i droi i gael cymorth. Cadarnhaodd y Swyddog mai maes arall a oedd cael ei adolygu oedd datblygiad deallusrwydd cwsmeriaid, oherwydd byddai hyn yn helpu'r Cyngor i nodi pwy yn union i'w cynorthwyo ac, yn ddelfrydol, pa gymorth y mae ei angen cyn ei bod hi'n argyfwng ar bobl.

Amlinellodd y Swyddog y digwyddiadau costau byw a gynhaliwyd dros y mis diwethaf a chadarnhaodd fod 142 o atgyfeiriadau wedi'u gwneud i amrywiol wasanaethau o ganlyniad. Mae'r holl ddata a gasglwyd o sioeau teithiol wedi'i gasglu a'r prif feysydd pryder ar y cyfan oedd tlodi bwyd a thanwydd, a chael at fudd-daliadau, bod yn gymwys i gael cymorth a deall

sut i gael gafael ar gymorth. Rhoddwyd gwybod i Aelodau mai'r brif thema a oedd yn deillio o'r digwyddiadau oedd lefel y pryder yr oedd pobl yn ei deimlo nawr.

Er bod y Cyngor eisoes yn gwneud llawer o waith yn y maes hwn, dywedodd y Prif Weithredwr mai dim ond un asiantaeth ydoedd a oedd yn gweithio gydag amrywiaeth o bartneriaid ac, felly, bod symleiddio ac osgoi dyblygu yn allweddol. Er y bydd y Cyngor yn gwneud popeth o fewn ei allu i gefnogi ei drigolion, atgoffwyd Aelodau nad all wneud popeth, a fydd yn golygu y bydd rhai dewisiadau anodd i ddod. Esboniwyd y byddai rôl Aelodau Ward Lleol yn hanfodol wrth amlygu anghenion cymunedau ac y bydd rhifyn arbennig o Newsline Caerffili'n cael ei lansio, a fyddai'n canolbwyntio ar yr argyfwng costau byw ac ymateb y Cyngor.

Rhoddodd Aelod ar gofnod ei diolch i Swyddogion Caerffili am eu cymorth â banciau bwyd, yn benodol gwaith Sharon Peters a Rebecca Owen, ac i Tina Machaon a'i Thîm am yr holl gefnogaeth a ddarparwyd.

Ceisiwyd eglurhad ynghylch y taliad o £150 i aelwydydd cymwys ac a fyddai'r taliad hwn ar gael i aelwydydd gwag. Dywedodd y Swyddog Adran 151 fod hyn yn rhan o'r Cynllun yn ôl Disgresiwn ac y byddai'n hapus i rannu'r manylion yn dilyn y cyfarfod.

Canmolodd Aelod yr adroddiad a'r hyn sy'n gallu cael ei gyflawni pan roedd yr holl bartneriaid yn gweithio gyda'i gilydd, ond roedd yn poeni bod angen i'r Cyngor gydnabod cymorth hanfodol grwpiau gwirfoddol bach a mawr a sicrhau bod cyllid hanfodol yn eu cyrraedd nhw fel y gallant barhau i gefnogi cymunedau. Hefyd, gofynnodd yr Aelod i gydweithwyr barhau i amlygu Cronfa Ymrymuso'r Gymuned ac edrych ar y pethau bychain a'r addasiadau bychain y gall y sefydliad eu gwneud a fydd yn cael effaith fawr ar unigolion.

Cyfeiriodd yr Aelod at yr anawsterau y mae unigolion pryderus yn eu cael wrth geisio cysylltu â'r Cyngor yn y lle cyntaf a sut y gall gwelliant bach mewn maes fel hyn wneud gwahaniaeth enfawr. Rhannodd y Prif Weithredwr angerdd yr Aelod am newidiadau bach sy'n cael effaith fawr a chydnabu y bu problemau â thechnoleg ffôn swyddfa gefn, a rhoddodd sicrwydd i Aelodau bod Swyddogion wrthi'n gweithio ar welliannau.

PENDERFYNWYD bod yr adroddiad yn cael ei nodi.

Nodi'r adroddiad canlynol, yr oedd y Cabinet yn ei ystyried yn eitem frys: -

13. GOFAL CARTREF SY'N CAEL EI GOMISIYNU'N ALLANOL

Ystyriwyd yr adroddiad, yr oedd y Cabinet wedi'i ystyried yn eitem frys ar 27 Gorffennaf 2022.

O dan y cyfansoddiad, mae'n ofynnol bod unrhyw benderfyniad a wneir fel mater o frys yn cael ei adrodd i gyfarfod nesaf y Cyngor, gan roi'r rhesymau dros ei frys. Yno, cyflwynwyd yr adroddiad i'r Cyngor er gwybodaeth yr Aelodau.

Mynegodd Aelod pa mor hanfodol ydoedd fod gan y Cyngor ddarpariaeth gofal cartref ddigonol yn fewnol ac yn y sector preifat er mwyn gallu rhyddhau pobl o'r ysbyty yn amserol, gan ryddhau ambiwlansys a lliniaru'r pwysau a roddir ar deuluoedd. Cwestiynodd yr Aelod a fyddai'r cynnydd o £1 yn ddigon a gofynnodd sut roedd hyn wedi'i gyfrifo.

Dywedodd y Cyfarwyddwr Cynorthwyol Gwasanaethau Cymdeithasol nad oedd ganddo'r manylion hynny ond byddai'n gallu darparu'r wybodaeth yn dilyn y cyfarfod.

Cyfeiriodd Aelod at y gofal yr oedd aelod agos o'r teulu yn ei gael a chanmolodd y gweithwyr cymorth, gan ddweud eu bod yn arwyr cymunedol. Pwysleisiodd eu rôl hanfodol a bod yn rhaid i'r Cyngor sicrhau eu bod yn cael eu talu'n unol â hynny.

Dywedodd yr Aelod Cabinet dros Ofal Cymdeithasol fod y cynnydd o £1 wedi bod yn destun cytundeb ledled holl awdurdodau lleol Gwent ac roedd yn falch o nodi profiad cadarnhaol yr Aelod o safbwynt y gofal a gafwyd.

Yna, ceisiwyd eglurhad ynghylch sut y gallai'r Cyngor fod yn siŵr bod y £1 yn cael ei throsglwyddo i weithwyr a dywedodd y Swyddog Adran 151 fod yn rhaid i Ddarparwyr ddangos hyn trwy eu cyfrifon archwiliedig.

Nododd yr Aelodau'r rhesymau dros y brys a'r penderfyniad a wnaed gan y Cabinet

PENDERFYNWYD bod yr adroddiad yn cael ei nodi.

Nodi'r adroddiad canlynol, yr oedd y Cabinet yn ei ystyried yn eitem frys ac eithriedig: -

14. TYNNU'N ÔL O DŶ PONTYGWINDY, UNED 7 DE CLARE COURT, YSTÂD DDIWYDIANNOL PONTYGWINDY.

Ystyriwyd yr adroddiad, yr oedd y Cabinet wedi'i ystyried yn eitem frys ac eithriedig ar 27 Gorffennaf 2022.

O dan y cyfansoddiad, mae'n ofynnol bod unrhyw benderfyniad a wneir fel mater o frys yn cael ei adrodd i gyfarfod nesaf y Cyngor, gan roi'r rhesymau dros ei frys. Yno, cyflwynwyd yr adroddiad i'r Cyngor er gwybodaeth yr Aelodau.

PENDERFYNWYD bod yr adroddiad yn cael ei nodi.

Daeth y cyfarfod i ben am 19:33 pm

Wedi'i gymeradwyo fel cofnod cywir ac, yn amodol ar unrhyw ddiwygiadau neu gywiriadau y cytunir arnynt ac a gofnodir yng nghofnodion y cyfarfod a gynhelir ar 24 Tachwedd 2022, fe'i llofnodwyd gan y Maer.

_____

Y MAER